Taliad Tanwydd Gaeaf

DWP Adran Gwaith a Phensiynau

Os byddwch yn cysylltu â ni, rhowch y rhif cyfeirnod hwn

Ein rhif ffôn yw

Cod Rhif Est

Dylai defnyddwyr ffôn testun sydd ag anawsterau gyda'u lleferydd neu eu clyw ffonio

Cod Rhif

Dyddiad

/ /

Wedi'i archifo – peidiwch â'i ddefnyddio

● Ffurflen gais ar gyfer Taliad Tanwydd Gaeaf am aeafau blaenorol 1997/98, 1998/99 a 1999/00 yn unig

Efallai y gallwch gael Taliad Tanwydd Gaeaf am aeafau blaenorol 1997/98, 1998/99 a 1999/00 os oeddech yn 60 oed neu'n hŷn yn ystod wythnos gymhwyso ar gyfer y blynyddoedd hynny ac yn byw ym Mhrydain Fawr neu yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r dyddiadau ar gyfer wythnosau cymhwyso ar gyfer pob blwyddyn yn **Rhan 3**.

Nid oes gan berson hawl i daliad tanwydd gaeaf am y gaeaf 1997 i 1998, 1998 i 1999 neu 1999 i 2000 oni bai eu bod wedi gwneud cais am daliad o'r fath ar neu cyn 31 Mawrth 2014.

○ Beth i'w wneud nawr

Llenwch y ffurflen hon a'i dychwelyd atom yn yr amlen a anfonwyd atoch. Nid oes angen stamp arni.

Os ydych angen help i lenwi'r ffurflen hon, gall rhywun arall eich helpu i wneud hynny, ond dylech ei llofnodi eich hun os gallwch wneud hynny. Os bydd rhywun arall yn llofnodi'r ffurflen yn eich lle, dylent esbonio pam eu bod wedi gwneud hynny, er enghraifft, os penodwyd hwy i weithredu ar eich rhan at ddibenion budd-daliadau, neu os oes ganddynt Bwer Atwrnai.

Gallwch hefyd gael help i lenwi'r ffurflen hon trwy ffonio ein Llinell Gymorth – i gael rhagor o wybodaeth gweler **Rhan 5 – Nodiadau** ar ddiwedd y ffurflen hon.

● Rhan 1 – Amdanoch chi

Defnyddiwch y rhan hon i ddweud wrthym amdanoch eich hun. Mae'n bwysig eich bod yn ateb pob cwestiwn. Os na fyddwch yn gwneud hyn, bydd angen i ni ddychwelyd y ffurflen atoch.

Cyfenw Mr/Mrs/Miss/Ms

Pob enw arall yn llawn

Cyfeiriad

Cod post

Rhan 1 – Amdanoch chi parhad

Rhif ffôn yn ystod y dydd

Cod Rhif

Ticiwch y blwch priodol

Cartref ○ Gwaith ○ Ffôn symudol ○ Ffacs ○ Ffôn testun ○

Dyddiad geni

/ /

○ Os ydym wedi ticio'r blwch hwn mae'n golygu bod angen i ni weld eich tystysgrif geni wreiddiol. Mae hyn am nad oes gennym dystiolaeth o'ch dyddiad geni.

Gweler **nodyn 1** yn **Rhan 5** ar ddiwedd y ffurflen hon.

Rhif Yswiriant Gwladol

Llythrennau Rhifau Llythyren

Dylid ei gwblhau ym mhob achos.

Gallwch ddod o hyd i'ch rhif Yswiriant Gwladol ar unrhyw slipiau cyflog, llythyrau oddi wrth Y Gwasanaeth Pensiwn, Cyllid a Thollau EM neu'r Adran Gwaith a Phensiynau neu P60, P45 neu gerdyn Yswiriant Gwladol. Os nad yw'r rhif hwn yn hysbys i chi, gwelwch **nodyn 7** yn **Rhan 5** ar ddiwedd y ffurflen hon.

Oes unrhyw un arall yn byw yn eich cartef sy'n 60 oed neu'n hŷn?

Na ○

Oes ○ Rhowch wybod i ni amdanynt.

Eu henw

Eu rhif Yswiriant Gwladol

Llythrennau Rhifau Llythyren

Eu dyddiad geni

/ /

Wedi'i archifo – peidiwch â'i ddefnyddio

● Rhan 2 – Gwneud taliadau i chi

○ A – Taliad yn uniongyrchol i gyfrif

Fel arfer byddwn yn talu Taliad Tanwydd Gaeaf yn uniongyrchol i mewn i gyfrif.

Gallwch ddefnyddio banc, cymdeithas adeiladu neu ddarparwr cyfrif arall. Mae llawer o fanciau a chymdeithasau adeiladu yn y DU yn gadael i chi gasglu arian yn swyddfa'r post.

Sut y cewch eich talu

Bydd eich Taliad Tanwydd Gaeaf yn cael ei dalu i'r cyfrif y byddwch yn dweud wrthym amdano yn **Adran B**.

Cael gwybod faint sy'n cael ei dalu i'r cyfrif

Gallwch wirio eich Taliadau Tanwydd Gaeaf ar gyfriflenni eich cyfrif. Bydd eich cyfriflenni yn dangos eich rhif Yswiriant Gwladol wrth ymyl y taliadau gennym ni. Os credwch fod y taliad yn anghywir, cysylltwch â'r swyddfa sy'n eich talu yn syth.

Os byddwn yn talu gormod o arian i chi.

Mae gennym hawl i adennill unrhyw arian a delir i chi nad oes gennych hawl iddo. Efallai bod hyn oherwydd y ffordd mae'r system Taliad Uniongyrchol yn gweithio. Er enghraifft, efallai eich bod yn rhoi gwybodaeth i ni, sy'n golygu eich bod â hawl i'r arian ond efallai na allwn newid y swm rydym wedi ei anfon allan yn barod. Os bydd hyn yn digwydd, byddwn yn adennill unrhyw arian.

Beth i'w wneud nawr

- Dywedwch wrthym am y cyfrif rydych eisiau i ni ddefnyddio, yn **Adran B**. Drwy roi eich manylion cyfrif rydych yn cytuno i gael eich talu drwy Daliad Uniongyrchol ac yn deall y gwybodaeth uchod am ordaliad.
- Os ydych yn bwriadu agor cyfrif, nodwch eich manylion cyfrif i ni cyn gynted ag y maent gennych.

Wedi'i archifo – peidiwch â'i ddefnyddio

● Rhan 2 – Gwneud taliadau i chi parhad

○ B – Taliad yn syth i gyfrif DU

Rhowch fanylion eich cyfrif isod. Mae'n bwysig iawn eich bod yn cwblhau yr HOLL flychau yn gywir yn cynnwys rhif rôl neu rhif cyfeirnod y gymdeithas adeiladu os oes gennych un. Os rhowch y manylion cyfrif anghywir i ni efallai bydd oedi yn eich taliad neu efallai byddwch yn colli arian.
Gallwch ddod o hyd i fanylion y cyfrif ar y llyfr siec, paslyfr neu gyfriflenni. Os nad ydych yn siwr am y manylion, gofynnwch i'r banc, cymdeithas adeiladu neu ddarparwr cyfrif arall.

Y cyfrif rydych eisiau ei ddefnyddio

Gallwch ddefnyddio
- cyfrif yn eich enw chi
- cyfrif ar y cyd neu
- cyfrif rhywun arall,
  - yn destun i dermau ac amodau'r cyfrif a
  - chyn belled bod gennych ganiatâd y person arall ac yn eu hawdurdodi i ddefnyddio'r arian yn y ffordd rydych yn dweud wrthynt

Os ydych yn benodai neu'n gynrychiolydd cyfreithlon yn gweithredu ar ran y cwsmer, dylai'r cyfrif fod yn eich enw chi yn unig.

Er mwyn cael ei dalu i gyfrif undeb gredyd mae'n rhaid roi manylion cyfrif yr undeb credyd. Bydd eich undeb credyd yn gallu eich helpu gyda hyn.

Enw deiliad y cyfrif
Ysgrifennwch enw deiliad y cyfrif yn union fel y mae i'w weld ar y llyfr siec neu'r gyfriflen.

Enw llawn y banc, cymdeithas adeiladu neu ddarparwr cyfrif arall

Cod didoli
Rhowch bob un o'r chwe rhif, er enghraifft **12-34-56**

Rhif y cyfrif
Mae'r mwyafrif o rifau cyfrif yn 8 rhif o hyd. Os oes gan eich cyfrif lai na 10 rhif, llenwch y rhifau i mewn o'r chwith.

Os ydych yn defnyddio cyfrif cymdeithas adeiladu efallai y bydd yn rhaid i chi ddweud wrthym y rhif rôl neu gyfeirnod. Gall y rhain gynnwys llythrennau a rhifau a gall fod hyd at 18 nod o hyd. Os ydych yn ansicr p'un a oes gan y cyfrif rif rôl neu gyfeirnod, gofynnwch i'r gymdeithas adeiladu.

Rhif rôl neu gyfeirnod y gymdeithas adeiladu

Wedi'i archifo – peidiwch â'i ddefnyddio

Rhan 3 – Gwybodaeth angenrheidiol i wneud cais ar gyfer gaeafau 1997/98, 1998/99 a 1999/00

Atebwch bob cwestiwn ar gyfer pob blwyddyn yr hoffech wneud cais ar ei chyfer.
Gweler **nodyn 2** yn **Rhan 5** ar gefn y ffurflen hon.

Ynglŷn â:	**Gaeaf 1997/98**		**Gaeaf 1998/99**		**Gaeaf 1999/00**	
	Na	**Do**	**Na**	**Do**	**Na**	**Do**
A gawsoch Daliad Tanwydd Gaeaf?	○	○	○	○	○	○
A gafodd eich partner, os oedd gennych un, Daliad Tanwydd Gaeaf? Gweler **nodyn 6** ar gefn y ffurflen hon.	○	○	○	○	○	○
A wnaeth unrhyw un arall a oedd yn 60 oed neu'n hŷn ac yn byw yn eich cartref wneud cais am Daliad Tanwydd Gaeaf, neu a ydynt yn bwriadu gwneud hynny?	○	○	○	○	○	○
Yn yr wythnosau cymhwyso o:	**5-11 Ionawr 1998**		**9-15 Tachwedd 1998**		**20-26 Medi 1999**	
	Na	**Do**	**Na**	**Do**	**Na**	**Do**
A oedd unrhyw un arall yn eich cartef yn 60 oed neu'n hŷn?	○	○	○	○	○	○
Oeddech chi'n byw y tu allan i Brydain Fawr neu Gogledd Iwerddon? Gweler **nodyn 3** ar gefn y ffurflen hon.	○	○	○	○	○	○
Oeddech chi o dan reolaeth mewnfudo? Gweler **nodyn 4** ar gefn y ffurflen hon.	○	○	○	○	○	○
Oeddech chi wedi bod yn cael triniaeth am ddim fel claf preswyl mewn ysbyty?	○	○	○	○	○	○
Oeddech chi wedi bod yn yr ysbyty am fwy na 52 wythnos?	○	○	○	○	○	○
Oeddech chi'n byw mewn cartef gofal neu breswyliad tebyg? Gweler **nodyn 5** ar gefn y ffurflen hon.	○	○	○	○	○	○
Oeddech chi yn y ddalfa yn gwasanaethu dedfryd llys?	○	○	○	○	○	○
Oeddech chi'n cael Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm?	○	○	○	○	○	○
A oedd eich partner, os oedd gennych un, yn cael Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm?	○	○	○	○	○	○

Wedi'i archifo – peidiwch â'i ddefnyddio

Rhan 4 – Datganiad

Mae'n bwysig iawn eich bod yn darllen ac yn deall y datganiad cyn arwyddo'r ffurflen gais.

Os oes rhywun arall wedi llenwi'r ffurflen ar eich rhan, gwiriwch y manylion i gyd cyn arwyddo'r datganiad isod.

Os oes gennych unrhyw anhawster wrth lenwi neu arwyddo'r ffurflen gais neu eisiau dweud am unrhyw newid yn eich amgylchiadau personol, cysylltwch â ni. Ein rhif ffôn yw **0845 915 1515**. Am alwadau rhyngwladol, y rhif ffôn yw **+44 (0)191 218 7777**.

- **Rwyf yn deall** bod yn rhaid i mi roi gwybod yn brydlon i'r swyddfa sy'n talu fy mudd-dal am unrhyw beth a allai effeithio ar fy hawl i gael y budd-dal hwnnw, neu'r swm o'r budd-dal hwnnw.
- **Rwy'n datgan** bod y wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.
- **Rwyf yn deall** os byddaf yn rhoi gwybodaeth sy'n anghywir yn fwriadol, y gallaf gael fy erlyn neu wynebu camau eraill.
- **Rwyf yn deall** os na fyddaf yn rhoi gwybod yn brydlon i'r Adran am newid mewn amgylchiadau, y gallaf gael fy erlyn neu wynebu camau eraill.

Dyma fy nghais am Daliad Tanwydd Gaeaf.

Eich llofnod

Dyddiad / /

Os ydych wedi llofnodi ar ran y person a enwir yn **Rhan 1**, dywedwch wrthym pam.

Wedi'i archifo – peidiwch â'i ddefnyddio

Rhan 5 – Nodiadau

Mae'r nodiadau hyn i'ch helpu i gwblhau'r ffurflen gais am Daliad Tanwydd Gaeaf.

1 Rydym wedi ticio'r blwch am nad oes gennym dystiolaeth o'ch dyddiad geni. Anfonwch eich tystysgrif geni wreiddiol neu newydd atom. Ni allwn dderbyn llungopïau. Byddwn yn dychwelyd eich tystysgrif geni i chi o fewn pum niwrnod gwaith. Os byddwn angen cadw eich tystysgrif am fwy o amser, byddwn yn dweud wrthych pam. Os oes gennych dystysgrif nad yw o'r DU efallai byddwn yn cymryd yn hirach na phump diwrnod gwaith i'w dychwelyd. Byddwn yn gadael i chi wybod os mai hyn yw'r achos.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'ch tystysgrif geni , ffoniwch y Linell Gymorth Taliadau Tanwydd Gaeaf ar **0845 915 1515**.

2 Atebwch ar gyfer pob blwyddyn yr hoffech hawlio Taliad Tanwydd Gaeaf ar ei chyfer. Defnyddiwch y tabl i benderfynu pa flynyddoedd yr hoffech hawlio ar eu cyfer.
Er enghraifft, os hoffech hawlio ar gyfer **gaeaf 1998/99**, cwblhewch y cwestiynau o dan y golofn wedi'i marcio **9–15 Tachwedd 1998**.
Ticiwch y blychau ar y ffurflen gais sy'n berthnasol i'ch amgylchiadau yn ystod wythnosau cymhwyso'r flwyddyn yr hoffech hawlio ar ei chyfer. Mae'n bwysig eich bod yn ateb pob cwestiwn yn yr adran hon drwy dicio'r naill flwch neu'r llall, fel y gallai effeithio ar eich hawl.

3 Cymru, Lloegr a'r Alban yn unig yw *Prydain Fawr*.

4 Mae gan rywun sydd o dan *reolaeth mewnfudo* gyfyngiad neu amod ar eu hawl i gael mynediad i'r DU neu aros yno. Er enghraifft, nid ydynt yn ateb gal i gael arian cyhoeddus.

5 Mae *cartref gofal neu breswyliad tebyg* yn golygu eich bod yn byw mewn
- cartref gofal
- ysbyty annibynnol, neu
- Ilford Park.

Cartref gofal yw lle y cewch lety yn ogystal â gofal nyrsio neu bersonol. Mae'n cynnwys
- cartrefi preswyl
- cartrefi nyrsio, a
- llety preswyl awdurdod lleol.

Ysbyty annibynnol yw ysbyty sydd ddim yn ysbyty Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol (GIG).

Cartref Ailsefydlu Pwylaidd yw *Ilford Park*.

6 Mae *partner* yn golygu
- person rydych yn briod â hwy neu berson rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn briod â hwy, neu
- bartner sifil neu berson rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn bartneriaid sifil.

Daeth y Ddeddf Partneriaeth Sifil i rym yn y Deyrnas Unedig ar 5 Rhagfyr 2005.

7 Os nad ywch chi'n rhif Yswiriant Gwladol yn hysbys i chi, rhowch wybod i ni a byddwn yn anfon ffurflen atoch i'w llenwi.

8 Cyn arwyddo'r ffurflen gais gwiriwch:
- eich bod wedi llenwi pob adran sy'n berthnasol i chi, ac
- eich bod yn amgáu eich tystysgrif geni, os gofynom amdani.

Os oes angen help arnoch wrth lenwi'r ffurflen hon, ffoniwch y Llinell Gymorth Taliadau Tanwydd Gaeaf ar 0845 915 1515. Mae'r llinell hon ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o 8.30am i 4.30pm.

Os oes gennych anawsterau gyda'ch lleferydd neu'ch clyw gallwch gysylltu â ni drwy ddefnyddio ffôn testun ar **0845 601 5613**. Codir yr un cyfraddau â galwadau lleol. Os nad oes gennych system ffôn testun efallai fod gan eich llyfrgell leol neu Ganolfan Cyngor ar Bopeth un.

Wedi'i archifo – peidiwch â'i ddefnyddio

Rhan 6 – Sut rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth

Mae'r wybodaeth rydym yn ei chasglu amdanoch a sut rydym yn ei defnyddio yn dibynnu'n bennaf ar y rheswm dros eich busnes gyda ni, ond gallwn ddefnyddio'r wybodaeth ar gyfer unrhyw ddibenion yr Adran, sy'n cynnwys

- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cyflogaeth a hyfforddiant
- polisi pensiynau preifat, a
- cynllunio ar gyfer ymddeol.

Efallai y byddwn yn casglu gwybodaeth gan eraill er mwyn gwirio'r wybodaeth rydych yn ei darparu ac i wella ein gwasanaethau, ac efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth i rai sefydliadau eraill fel y mae'r gyfraith yn caniatáu, er enghraifft er mwyn amddiffyn yn erbyn troseddau.

I gael mwy o wybodaeth am y ffordd rydym yn defnyddio gwybodaeth, ewch i'n gwefan yn **www.dwp.gov.uk/cymraeg/privacy-policy** neu cysylltwch ag unrhyw un o'n swyddfeydd.

Wedi'i archifo – peidiwch â'i ddefnyddio

At ddefnydd y swyddfa yn unig – For office use only

Birth certificate returned by _____ **on** / /

Date of birth verified as / /

Initials _____ **date** / /